



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Beichiog?

Cofiwch amddiffyn eich babi heb ei eni rhag y pas

**Gall y pas fod yn ddifrifol iawn a babanod iau na thri mis
oed sy'n wynebu'r risg fwyaf.**

Fe fu farw deunaw o fabanod o'r pas yn y
DU rhwng 2013 a 2017.

Os ydych chi'n feichiog, gallwch
amddiffyn eich babi drwy gael brechiad
rhag y pas.

Y brechiad a ddefnyddir yw'r brechiad
difftheria, tetanws, pertwsis a pholio cyfun.

- Mae'r brechiad am ddim, yn ddiogel
ac yn gweithio'n dda.
- Yr amser gorau i gael y brechiad yw
pan rydych chi rhwng 16 a 32 wythnos
yn feichiog.
- Bydd eich babi angen ei frechiadau
rheolaidd yn ddau fis oed yr un fath.

Siaradwch gyda'ch bydwraig neu eich
meddygfa a gwneud apwyntiad i drefnu
eich brechiad.

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn
[111.wales.nhs.uk/doityourself/
pregnancy/WhoopingCough](https://111.wales.nhs.uk/doityourself/pregnancy/WhoopingCough)



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales